# <u>Protocol pan fo gan grŵp masnachol S4C fuddsoddiad mewn cwmni cynhyrchu</u>

**Cefndir**

Mae strategaeth fasnachol S4C yn caniatáu buddsoddiadau masnachol mewn cwmnïau cynhyrchu drwy un o is-gwmnïau masnachol S4C. Mae'r protocol hwn wedi'i sefydlu i ddiogelu dwy brif egwyddor:

1. Bod penderfyniadau comisiynu S4C yn cael eu gwneud yn annibynnol o unrhyw fuddiannau sydd gan y grŵp masnachol; ac
2. Na ddylai cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt gael mantais gystadleuol annheg dros gynhyrchwyr eraill o ganlyniad i'w perthynas fasnachol ag S4C.

**Egwyddorion i'w dilyn**

**1. Dylid gwneud penderfyniadau comisiynu S4C yn annibynnol o unrhyw fuddiannau sydd gan y grŵp masnachol.**

- Bydd gofynion y gwasanaeth cyhoeddus yn cael blaenoriaeth, ac ni ddylai penderfyniadau comisiynu gael eu dylanwadu gan unrhyw fuddsoddiad masnachol. Rhaid seilio comisiynu ar anghenion y gwasanaeth cyhoeddus yn unig, yn hytrach nag angen i sicrhau llwyddiant masnachol y cwmni cynhyrchu.

- Tra bydd aelodau'r Bwrdd Masnachol a Thîm Rheoli S4C yn cael gwybodaeth gyfrinachol am y cwmni cynhyrchu fel rhan o'r prosesau buddsoddi a monitro perfformiad, ni ddylid rhannu'r wybodaeth honno â'r Comisiynwyr nad ydynt yn aelodau o Dîm Rheoli S4C.

- Ni all unrhyw Gomisiynydd fod yn aelod o fwrdd unrhyw un o is-gwmnïau masnachol S4C sy'n buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu.

- Os bydd unrhyw Gomisiynydd yn teimlo eu bod dan bwysau i ddyfarnu comisiwn oherwydd buddsoddiad masnachol yn y cwmni, dylid cyfeirio eu pryder yn syth at Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg S4C neu, yn eu habsenoldeb, unrhyw aelod arall o'r pwyllgor.

**2. Ni ddylai cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt gael mantais gystadleuol annheg dros gynhyrchwyr eraill o ganlyniad i'r berthynas fasnachol ag S4C.**

Rhaid cynnal perthynas hyd braich rhwng S4C a chwmnïau cynhyrchu y buddsoddwyd ynddynt.

- Wrth gomisiynu, ni ddylid rhoi ffafriaeth i gwmnïau yr ydym wedi buddsoddi ynddynt, ac ni ddylid gwahaniaethu yn eu herbyn ychwaith. Dylid trin pob cwmni cynhyrchu yn deg, gyda chomisiynau yn seiliedig ar ystyriaethau sy'n cael eu cymhwyso'n gyson ar gyfer pob cwmni a syniad, gan ddilyn Cod Ymarfer S4C. Mae angen bod yn arbennig o ofalus gyda syniadau sy'n deillio o S4C neu hawliau sy'n cael eu caffael yn ganolog er mwyn sicrhau tegwch wrth ddyfarnu'r gwaith cynhyrchu.

- Rhaid sicrhau bod unrhyw gomisiwn a ddyfernir i gwmni y buddsoddwyd ynddo, ynghyd â'r ffi am y cynnwys, yn cael ei drafod a'i gytuno ar delerau hyd braich yn unol â Chod Ymarfer S4C ac yn gyson â'r telerau a gytunwyd gyda darparwyr eraill S4C.

- Ni ddylai cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt gael mynediad at unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif gan S4C nad yw'n cael ei rhannu'n gyffredinol â'r sector, e.e. am ein strategaeth, blaenoriaethau, cyllidebau, cynlluniau neu ymchwil.

- Os yw S4C yn cynnig lletygarwch, ni ddylai ddangos unrhyw ffafriaeth i gynrychiolwyr y cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt, cyn cwmnïau cynhyrchu eraill.

- Os cynigir lletygarwch i'n staff, mae angen dilyn y Cod Ymddygiad yn y Llawlyfr Staff, ond mae angen gofal arbennig gyda lletygarwch a gynigir gan gwmnïau y buddsoddwyd ynddynt er mwyn cynnal perthynas hyd braich gyda'r cwmni.

- Atgoffir staff bod y Cod Ymddygiad yn datgan na chaniateir i unrhyw aelod o staff S4C fod â buddiant llesiannol mewn cwmni sydd â pherthynas gytundebol ag S4C, nac unrhyw gwmni neu fusnes sy'n ymwneud yn rheolaidd neu o bryd i'w gilydd â chyflenwi rhaglenni i S4C. Felly ni all staff S4C fod ag unrhyw fuddiant llesiannol mewn cwmni cynhyrchu y mae gennym fuddsoddiad masnachol ynddo.

**Proses i'w dilyn wrth gomisiynu**

Os bydd grŵp masnachol S4C yn buddsoddi mewn cwmni cynhyrchu, byddwn yn hysbysu'r Comisiynwyr a staff perthnasol eraill.

Cyn dyfarnu unrhyw gomisiwn i un o'r cwmnïau hynny, bydd angen i'r Comisiynydd perthnasol gyflwyno ffurflen i'r Arweinydd Materion Busnes neu, yn eu habsenoldeb, y Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys, yn nodi bod y comisiwn yn cael ei ddyfarnu yn unol â'r egwyddorion uchod. Bydd angen cymeradwyaeth yr Arweinydd Materion Busnes neu'r Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys drwy lofnodi'r ffurflen cyn dyfarnu'r comisiwn.

**Monitro cydymffurfiaeth**

Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r egwyddorion uchod, bydd swyddogion yn cyflwyno adroddiad unwaith y flwyddyn i Bwyllgor Archwilio a Risg S4C ar sut rydym wedi cydymffurfio (neu fethu â chydymffurfio) â'r protocol hwn.

**Cwynion**

Os daw unrhyw gŵyn i law sy'n honni methiant i ddilyn y protocol hwn, caiff ei chyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i wneud dyfarniad. Os nad yw'r achwynydd yn fodlon ar y penderfyniad, gallant wneud apêl i Banel Cwynion S4C o dan Drefn Gwynion S4C. Bydd modd cyflwyno apêl o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y penderfyniad cychwynnol.

**Buddsoddiadau mewn cwmnïau eraill**

Er bod y protocol hwn yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau mewn cwmnïau cynhyrchu, disgwylir yn gyffredinol y bydd yr un egwyddorion yn cael eu dilyn mewn perthynas â chwmnïau eraill y buddsoddir ynddynt gan grŵp masnachol S4C a allai fod yn cyflenwi deunydd neu wasanaethau i S4C. Bydd Bwrdd S4C yn penderfynu a yw'n briodol addasu'r egwyddorion uchod mewn achosion penodol.

**Y Gronfa Cynnwys Masnachol**

Mae'n bosibl y bydd is-gwmni masnachol S4C, S4C Rhyngwladol Cyf, yn ariannwr uniongyrchol mewn cynyrchiadau unigol sydd â photensial masnachol drwy'r Gronfa Cynnwys Masnachol. Disgwylir i'r trefniadau ariannol ar gyfer y Gronfa hon gael eu trafod ar hyd braich, ond mae'r trefniadau hynny y tu allan i gwmpas y protocol hwn.